**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1395
Ein cyf/Our ref JJ/00118/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

04 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr ynglŷn â deiseb P-06-1395 sy'n galw am Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent.

Fel Llywodraeth, mae mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Gwastadeddau Gwent o bwysigrwydd cenedlaethol o ran eu bioamrywiaeth a'u tirwedd, ac wedi eu dynodi gan gyfres o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, yn ogystal â bod yn dirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol. Mae eu lleoliad, ger Caerdydd a Chasnewydd, ac i Sir Fynwy, hefyd yn eu gwneud yn ased diwylliannol a hamdden gwerthfawr i bobl leol ac ymwelwyr. Mae hefyd yn dirwedd fyw ac yn agored i lawer o newid, a phwysau parhaus. Bydd nifer o newidiadau polisi cynllunio diweddar yr ydym wedi'u cyflwyno yn dylanwadu'n uniongyrchol ar unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y Gwastadeddau yn y dyfodol.

Yn gyntaf, ym mis Hydref 2023 fe wnaethom ddiweddaru pennod 6 o 'Bolisi Cynllunio Cymru' (PPW) i gynnwys amddiffyniad cryfach ar gyfer pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), daeth y newidiadau hynny i rym ar unwaith. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi 'Dylid osgoi unrhyw ddatblygiad ar SoDdGA os nad oes ei angen at ddiben rheoli’r safle', ac mae'n mynd ymlaen i ddweud 'Ceir rhagdybiaeth yn erbyn pob math arall o ddatblygiad mewn SoDdGA fel mater o egwyddor a dylai’r rhagdybiaeth hon gael ei hadlewyrchu’n briodol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygiad'. Mae'r PPW diwygiedig hefyd yn egluro'r sefyllfa mewn perthynas ag ardaloedd y tu allan i SoDdGA a allai effeithio ar y SoDdGA hynny, yn yr ystyr ' Ceir rhagdybiaeth hefyd yn erbyn datblygiad nad yw o fewn SoDdGA ond sy’n debygol o ddifrodi SoDdGA'. Rydym hefyd wedi prif ffrydio bioamrywiaeth yn gryf i'r PPW diwygiedig hwn i egluro ein dull o sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy bwysleisio pwysigrwydd cydnerthedd ecosystemau a'r angen i osgoi difrod i fioamrywiaeth ac ecosystemau, ac i sicrhau eu bod yn cael eu gwella. Bellach mae'n ofynnol i benderfyniadau cynllunio a datblygiadau polisi cynllunio sy'n ymwneud â Gwastadeddau Gwent gadw at y diweddariadau hyn. Mae'r canllawiau wedi'u

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diweddaru ar gael yma [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12_0.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12_0.pdf)

Yn ail, mae 'Cymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn cyflwyno Polisi 9 – 'Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd'. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgorffori bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn y broses gynllunio. Mae Gwastadeddau Gwent wedi'u henwi'n benodol ym Mholisi 9 fel ardal o adnoddau naturiol cenedlaethol - ardaloedd yw'r rhain lle mae angen cydweithio ar draws ffiniau gweinyddol a thu hwnt i ffiniau safleoedd dynodedig i gryfhau rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystem a sicrhau budd bioamrywiaeth net. Rwyf wedi cymeradwyo datblygu canllawiau cynllunio pellach yn benodol ar gyfer y Gwastadeddau i helpu i roi'r polisi cenedlaethol hwn ar waith. Bydd y canllawiau yn beilot o ddull gweithredu polisi 9 'Cymru'r Dyfodol' gyda'r nod o ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth yn rhagweithiol i bolisïau cynllunio o fewn y dirwedd ehangach. Mae'r gwaith o ddarparu'r canllawiau hyn bellach wedi dechrau gydag adnoddau penodol o ran staff wedi'u sicrhau ddiwedd 2023 er mwyn eu cyflwyno.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change